



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Gwasanaethau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol
2025-2026



Awdur: Eleri Hughes-Jones

Cynnwys	Tudalen
Crynodeb Gweithredol	3
Dod â Straeon Cleifion yn Fyw	4
Cefndir a Model Gwasanaeth	5
Llywodraethu a Hunanreoleiddio	5
Safonau'r Gymraeg	7
Rhaglen Datblygu'r Gweithlu	11
Gwasanaethau Cyfieithu	15
Gweithgareddau a Digwyddiadau Hyrwyddo	16
Y Gymraeg fel Sgil Proffesiynol	20
Dangosyddion Perfformiad Allweddol	22
Myfyrdodau a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol	24

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau) yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r gofynion a'r cynnwys fel y'i nodir yn Safon 120 y Safonau:

- Cwynion
- Cynllunio'r Gweithlu
- Recriwtio
- Sgiliau Iaith
- Hyfforddiant i wella sgiliau iaith yn y Gymraeg

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth â chynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru, 'Mwy na geiriau'. Darperir trosolwg o'r cynnydd, gan gynnwys datblygiadau gwasanaeth a'r prif gyflawniadau yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2025 hyd at fis Mawrth 2026.

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni

Wrth werthuso'r sefyllfa bresennol yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei nodau.

Mae rhai o'r cyflawniadau allweddol hyn yn cynnwys:

- gwell cydymffurfiaeth statudol trwy ddilyn dulliau hunanasesu dwys a chynhwysfawr;
- cyflwyno cynllun ymgynghoriadau clinigol Safon 110 er mwyn gwella capasiti i gyflwyno ymgynghoriadau yn Gymraeg;
- gwell cydymffurfiaeth yn gyffredinol wrth greu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog ac amlygu'r Gymraeg;
- cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg, yn ogystal â bodloni'r holl dargedau hyfforddi a sefydlwyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel rhan o Gytundeb 'Cymraeg Gwaith' 2024-2025 er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth ariannol;
- wedi ehangu partneriaethau â phrifysgolion a gweithluoedd ar gyfer y dyfodol, gan gynnig sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i ddarparu weithwyr gofal iechyd proffesiynol ym Mhrifysgol Wrecsam, Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, ac mewn ysgolion amrywiol ar draws Gogledd Cymru;
- cynnal gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu llwyddiannus er mwyn hybu'r Gymraeg a gwella ei gwelededd;

Bydd yr adroddiad yn manylu ar yr hyn a gyflawnwyd a sut yr aethpwyd ati i'w gyflawni.

Nid yn unig y mae'r cyflawniadau sydd wedi'u sicrhau dros y flwyddyn ddiwethaf yn gerrig milltir sefydliadol - maent yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i brofiadau cleifion a theuluoedd ar draws Gogledd Cymru. Mae'r straeon cleifion a ganlyn yn amlinellu sut mae'r camau gweithredu'n cael eu cyflawni, a'u profi, ar lefel sylfaenol.

Dod â Straeon Cleifion yn Fyw

Eleni, cawsom y cyfle i rannu dwy stori bositif gan gleifion yn ymwneud â'r Gymraeg, un o'r Adran Strôc yn Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy a'r llall o Ward y Plant yn Ysbyty Glan Clwyd.

Roedd y stori gyntaf yr oeddem wedi'i rhannu'n tynnu sylw at effaith ddwys clywed y Gymraeg yn dilyn strôc. Ni allai'r gŵr dan sylw gyfathrebu yn ei sgil a arweiniodd ato'n teimlo'n fwyfwy rhwystredig. Gwnaeth ei wyres ddisgrifio'r ymdeimlad o ryddhad roedd y teulu'n ei deimlo pan wnaeth aelodau o staff yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy siarad Cymraeg. Esboniodd ei fod, nid yn unig, wedi rhoi cysur a sicrwydd iddyn nhw fel teulu, ond ei fod hefyd wedi cael effaith bositif aruthrol ar ei daid. Roedd gweld ei ymateb pan glywodd y Gymraeg am y tro cyntaf ers ei strôc yn wefreiddiol, 'roedd ei lygaid yn disgleirio', gan ddangos y cysylltiad pwerus rhwng iaith a gofal.




Gwnaethom rannu sut mae staff yn Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy yn rhoi cymorth i gleifion sy'n medru'r Gymraeg trwy eu paru â staff Cymraeg eu hiaith lle bynnag y bo'n bosibl, gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg mewn rhyngweithiadau o ddydd i ddydd, ac yn sicrhau bod yr iaith yn cael ei chlywed ar y ward. Mae staff yn gweld o lygad y ffynnon sut mae clywed y Gymraeg yn rhoi cysur, sicrwydd ac eglurder, gan helpu cleifion i deimlo'n fwy cyfforddus yn ystod yr hyn sy'n gallu bod yn adeg hynod heriol.



Cafodd y Bwrdd Iechyd ei ddethol gan Lywodraeth Cymru fel y ffocws ar gyfer dau arolwg byr yn arddangos y fframwaith Mwy na Geiriau yn ymarferol. I'w gweld, cliciwch yma



Roedd y stori arall yn canolbwyntio ar Cai, sef bachgen bach y cafodd ei brofiad o dderbyn diagnosis o ddiabetes ei esmwytho a'i hwyluso wrth i staff gyfathrebu ag ef a'i deulu yn Gymraeg ar Ward y Plant yn Ysbyty Glan Clwyd. Gwnaeth hyn dynnu sylw at yr effaith bositif y gall gofal a gynigir yn newis iaith y claf ei chael o ran rhoi tawelwch meddwl i'r claf a'r teulu yn ystod yr hynny a allai fod wedi bod yn gyfnod hynod heriol.



Tra bu ar y ward, cafodd dewis iaith Cai (Cymraeg) ei nodi'n glir yn ei nodiadau meddygol ac uwchben ei wely gan ddefnyddio magnet oren 'Cymraeg'. Roedd hyn wedi gwneud y profiad cyfan yn haws o lawer, gan fod holl staff y ward yn ymwybodol ei bod yn well gan Cai a'i deulu gyfathrebu yn Gymraeg. Gwnaeth hyn chwalu'r pwysau sydd ynghlwm wrth orfod gofyn am ofal yn Gymraeg dro ar ôl tro ac roedd yn fodd o sicrhau y gellid esbonio gwybodaeth yn ymwneud â'i ddiagnosis diabetes yn eu hiaith gyntaf, gan ei gwneud yn haws ei ddeall a'i amgyffred yn ystod cyfnod heriol.

Cefndir a Model Gwasanaeth

Yn ogystal ag adlewyrchu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gofynion Safon 120, mae'r adroddiad hwn hefyd yn dangos sut y cynlluniwyd y gwasanaeth i fynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth.

Mae Tîm y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd wedi'i strwythuro i sicrhau bod ei ffrydiau gwaith yn darparu'r mecanweithiau cymorth angenrheidiol sy'n ofynnol i brif ffrydio gofynion iaith wrth gynllunio gwasanaethau. Mae hefyd yn darparu rhwydwaith o gefnogaeth ar lefel weithredol i sicrhau bod yr holl ohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu'n ddwyieithog, a bod strwythur ar waith i ddatblygu'r gweithlu i wella eu sgiliau iaith.

Mae'n cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni gofynion deddfwriaethol ac i fynd i'r afael ag anghenion cleifion.

1. Cydymffurfio â Deddfwriaeth

Sicrhau bod y sefydliad yn cael cymorth i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

2. Hybu ac Ymgysylltu

Yn unol ag elfennau gweithredol cyflawni'r cynllun pum mlynedd 'Mwy na geiriau', mae gwasanaethau'n cael cymorth rhagweithiol, a chaiff prosiectau a chynlluniau eu lansio i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiwylliant, a'r effaith ar ofal cleifion.

3. Darpariaeth Hyfforddiant

Mae Rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg wedi'i theilwra i fynd i'r afael â gofynion gwasanaethau amrywiol, ynghyd â chefnogaeth ychwanegol a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda'r cytundeb 'Cymraeg Gwaith' a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

4. Gwasanaethau Cyfieithu

Mae'r Tîm Cyfieithu'n sicrhau bod y sefydliad yn gallu darparu gwybodaeth ar gyfer cleifion yn eu dewis iaith, ac maent hefyd yn cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso dewis iaith mewn lleoliadau clinigol a chorfforaethol.

Llywodraethu a Hunanreoleiddio

Ceir atebolrwydd strwythurol drwy Fforwm Strategol y Gymraeg (y Fforwm Strategol), a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, ac mae Cadeirydd y Bwrdd Iechyd wedi'i benodi'n Bencampwr y Gymraeg ar lefel y Bwrdd. Y Fforwm Strategol sy'n gosod y trefniadau llywodraethu mewnol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn llywio'r dulliau strategol, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sy'n gallu hybu'r gofynion. Mae llwybr craffu ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw faterion o bwys i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, yn ogystal ag adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd ar gydymffurfiaeth a chyflawniadau.

Cofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg

Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg a bod Cofrestr Risg bwrpasol ar waith. Mae'r risgiau presennol yn cynnwys bodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhoi egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol" ar waith yn unol â 'Mwy na Geiriau', a chyflawni 'Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog'.



Adolygwyd yr holl risgiau yn ystod 2025-2026, a graddiwyd pob un o'r tair sgôr risg fel rhai cymedrol neu fach. Wrth asesu'r sefyllfa bresennol, nid oedd angen uwchgyfeirio unrhyw risgiau.

Caiff Cofrestr Risg Gwasanaethau Cymraeg ei monitro bob chwarter, ac adroddir arni ddwywaith y flwyddyn i Fforwm Strategol y Gymraeg.

Sicrwydd Perfformiad Mewnol

Gwnaeth dull hunanreoleiddio'r Bwrdd Iechyd barhau gyda Rhaglen Monitro Siopwr Cudd gyda'r nod o roi sicrwydd cryf o ymrwymiad y sefydliad i gynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel a chynnal cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Cadarnhaodd gwaith monitro safonau fod arwyddion Cymraeg yn parhau i fod yn gryfder sylweddol gan y sefydliad, yn cynnwys lefelau cydymffurfio sy'n gyson uchel ar draws safleoedd, gan ddangos ymrwymiad cyson i amgylchedd dwyieithog gweladwy a hygyrch.

Roedd y rhaglen hefyd yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i feysydd lle gellid targedu gwelliannau pellach, yn enwedig rhyngweithiadau wrth dderbynfeydd, cyswllt dros y ffôn, a gwelededd y "Cynnig Rhagweithiol".



Mae'n rhaid ystyried sgoriau is o ran wardiau aciwt yn eu cyd-destun gan mai staff clinigol, yn hytrach na thimau derbynfa pwrpasol, sy'n delio â rhyngweithiadau pwynt cyswllt cyntaf yn aml gan flaenoriaethu gofal uniongyrchol i gleifion. Mae'r realiti gweithredol hwn yn esbonio rhywfaint o amrywiadau ac mae'n tynnu sylw at yr heriau unigryw sydd ynghlwm wrth gynnig cyfathrebiadau dwyieithog cyson mewn lleoliadau clinigol prysur.

Ar y cyfan, mae'r rhaglen wedi atgyfnerthu dealltwriaeth y Bwrdd lechyd am ble y bydd cymorth wedi'i dargedu'n cael yr effaith fwyaf. Mae'r rhaglen monitro'n dangos bod gan y Bwrdd lechyd drefniadau cadarn ar waith i asesu darpariaeth gwasanaeth Cymraeg a nodi meysydd ar gyfer gwella. Mae perfformiad cadarn o ran cydymffurfiaeth ag arwyddion yn darparu tystiolaeth o ymrwymiad parhaus i Safonau'r Gymraeg, er bod y canfyddiadau o leoliadau wardiau aciwt wedi cynnig mewnwlediadau gwerthfawr i'r heriau sy'n codi o fewn amgylcheddau clinigol. Bydd y sefydliad yn defnyddio'r adnoddau hyn i atgyfnerthu ymwybyddiaeth, gwella cysondeb o ran darpariaeth gwasanaeth a gwella gwelededd y "Cynnig Rhagweithiol" yn ystod 2026-27, gan sicrhau bod cleifion sy'n medru'r Gymraeg yn parhau i dderbyn profiad mwyfwy cadarnhaol wrth fanteisio ar wasanaethau.

Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg (y Safonau) ar waith ers y dyddiad gweithredu, sef 30 Mai 2019. Bu cynnydd sylweddol o ran bwrw ymlaen â gweithredu'r Safonau, monitro cydymffurfiaeth a rhoi cyfarwyddyd ar draws y sefydliad.

Monitro Cydymffurfiaeth

Mae gweithgarwch monitro o ran y Safonau yn mynd rhagddo'n dda ar draws y sefydliad. Mae nifer o Uwch Adrannau bellach wedi cwblhau ail gylch adolygu, sy'n caniatáu mesur gwelliannau'n glir o'r llinell sylfaen wreiddiol. Yn nodedig, mae Cymuned lechyd Integredig y Dwyrain wedi dangos cynnydd sylweddol ers y rownd gyntaf, wedi'i ategu gan roi ystod eang o gamau unioni effeithiol ar waith.

Mae'r enghraifft isod yn tynnu sylw at y gwelliannau sydd wedi'u cyflawni yng Ngwasanaethau Plant yn y Dwyrain, gan ddangos sut mae camau gweithredu wedi'u targedu'n arwain at newid ystyrion a pharhaus.

Cafodd Adroddiad Cryno o Gynnydd ei ddatblygu ar gyfer Gwasanaethau Plant, yn cymharu canfyddiadau'r gwaith monitro cychwynnol yn 2024-2025 â'r cynnydd dilynol yn ystod 2025-2026. Gwnaeth y sefyllfa gyffredinol nodi'r canlynol:

- gwelliannau sylweddol o ran cydymffurfiaeth ar draws yr holl safonau
- bod y rhan fwyaf o safonau bellach yn cydymffurfio'n llawn neu eu bod bron â bod yn cydymffurfio'n llawn

Lefel Gydydffurfiaeth	2024-2025	2025-2026
cydymffurfiaeth o $\geq 90\%$	71	107
cydymffurfiaeth o $\geq 70\%$	16	2
cydymffurfiaeth o $\geq 50\%$	14	1

Cafwyd newid amlwg o **gydymffurfiaeth gymysg i gydymffurfiaeth a oedd yn uchel yn gyson**, a gwelwyd y gwelliannau allweddol yn y meysydd a ganlyn:

1. Teleffoni

- Gwelliant mawr o ran cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg dros y ffôn
- Cyflwynwyd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, cyhoeddwyd arweiniad i staff a rhoddwyd hapwiriadau ar waith
- Symudodd statws Safon 9, sy'n ymwneud â rhoi gwybod i alwr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, o beidio â chydymffurfio i gydymffurfio'n llwyr

2. Cofnodi Dewis Iaith

- Mae hyn bellach yn cael ei gofnodi fel mater o drefn trwy WPAS a ffurflenni cyfeirio
- Dosbarthwyd nodiadau atgoffa i staff ac ymgorfforwyd proses briodol
- Newid o ddull anghyson i ddull systematig

3. Cyfarfodydd ac Ymgysylltu

- Gofynnir am ddewis iaith ar gyfer cyfarfodydd fel mater o drefn erbyn hyn
- Cynllunio darpariaeth gyfieithu'n rhagweithiol
- Mae meysydd nad oeddent yn cydymffurfio'n flaenorol yn cydymffurfio'n llwyr erbyn hyn

4. Dogfennau a Ffurflenni

- Mae dogfennau allweddol bellach ar gael yn Gymraeg fel mater o drefn
- Mae ffurflenni cyswllt brys wedi cael eu cyfieithu'n llawn ac maent yn cael eu defnyddio bellach
- Y broses o newid rhwng y cam datblygu a gweithredu'n llawn


5. Derbynfeydd a Gwasanaethau ar gyfer y Cyhoedd

- Mae arwyddion a bathodynau Cymraeg yn eu lle erbyn hyn
- Mae gwelededd a mynediad staff i'r Gymraeg wedi gwella
- Yn cydymffurfio'n llwyr yn y meysydd gwasanaeth hyn

6. Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg

- Hyrwyddo gwasanaethau'n glir fel rhai sydd ar gael yn Gymraeg
- Gwybodaeth sydd ar gael yn ddwyieithog yn gyson ar draws platfformau

Mae hyn yn dangos bod ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud ar draws yr holl feysydd a gellir gweld hyn yn y siart cynnydd ar gydymffurfiaeth isod:



Mae hyn yn dangos bod gweithgarwch monitro parhaus wedi arwain at welliannau nodedig o ran cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, ac mae nifer o feysydd bellach yn dangos cydymffurfiaeth gryfach a mwy cyson. Mae'r gydymffurfiaeth gynyddol hon eisoes yn cael effaith bositif a sylweddol ar brofiad cleifion, yn enwedig trwy argaeledd cynyddol o gyfathrebu yn Gymraeg a gwasanaethau sy'n fwy ymatebol ac sydd wedi'u halinio ar lefel ddiwylliannol.

Mae'r datblygiadau hyn yn amlinellu sut mae monitro systematig nid yn unig yn ategu cydymffurfiaeth statudol ond hefyd yn arwain at fuddion ystyrlon i gleifion a chymunedau ar draws ein gwasanaethau.

Cynyddu capasiti'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â Safon 110

Yn ystod y cyfnod adrodd, dechreuodd ail flwyddyn y rhaglen pum mlynedd i wella cydymffurfiaeth â Safon 110. Mae Safon 110 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod pum mlynedd yn amlinellu i ba raddau y maent yn gallu cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg, a'r camau gweithredu arfaethedig er mwyn gwella'r gallu i wneud hynny.

Roedd gweithgarwch eleni'n canolbwyntio ar ddatblygu Pecyn Offer y "Cynnig Rhagweithiol" cynhwysfawr sydd â'r bwriad o gynorthwyo wardiau, adrannau a gwasanaethau i gynnig gofal yn y Gymraeg yn gyson i gleifion. Mae'r pecyn offer yn cynnwys deunydd gweledol megis magnetau oren i'w gosod uwchben gwely claf, sticeri a bathodynau, ochr yn ochr â phosteri, taflen wybodaeth ac arweiniad ar roi 'Cynllun Cyfeillio' ar waith.

Mae'r pecyn offer eisoes wedi cael ei gyflwyno i'r Tîm Strôc yn Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy, sydd wedi'i nodi fel safle'r peilot. Mae ymgysylltu â staff wedi bod yn hynod bositif, ac mae'r tîm yn dangos ymrwymiad cryf i ddiwallu anghenion ieithyddol cleifion ochr yn ochr â'u gofynion clinigol.

Mae ymgysylltu ag uwch arweinwyr clinigol wedi parhau i atgyfnerthu ymwybyddiaeth yn y sefydliad o Safon 110. Cafodd cyflwyniadau eu rhoi i gyfarfod yr Uwch Nyrsys a'r Uwch Dîm Arwain ym maes Deieteg, yn amlinellu'r cynllun pum mlynedd ac yn atgyfnerthu disgwyliadau'n ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Mae trafodaethau archwilio cynnar hefyd wedi cael eu cynnal gyda Meddyg Ymgynghorol ym maes Gofal yr Henoed yn Ysbyty Gwynedd ynghylch dichonoldeb cofnodi p'un a yw ymgynghoriadau clinigol yn cael eu cynnig yn rhagweithiol yn Gymraeg. Er bod y cysyniad wedi cael croeso cynnes, nodwyd heriau ymarferol, yn enwedig o ystyried y gyfran fawr o gleifion sy'n medru'r Gymraeg a'r cyfaint cynyddol o ddogfennaeth glinigol orfodol.

Unwaith eto, gwnaeth Tîm y Gymraeg roi cymorth i'r Tîm Dementia yn Ysbyty Gwynedd o ran hyrwyddo'r "Cynnig Rhagweithiol". Mae'r Tîm Dementia yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd cynnig gofal yn y Gymraeg i gleifion sy'n agored i niwed, a chafodd gwybodaeth ei harddangos i staff a'r cyhoedd gan dynnu sylw at rôl hollbwysig yr iaith o ran cynnig gofal sy'n ddiogel ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl sy'n byw gyda dementia.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol

Cynhyrchwyd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP) i gyd-fynd â Safonau penodol, gan ddarparu canllawiau manwl i staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth gywir. Gwnaeth datblygu'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol flaenoriaethu meysydd o bryder a amlygwyd naill ai gan bryderon allanol neu drwy drefniadau monitro.

Lluniwyd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer y canlynol:

- Gohebu â'r cyhoedd (Safon 7)
- Ateb y ffôn (Safonau 8, 9 a 10)
- Cyfarfodydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd (Safonau 21, 22, 22a a 22ch)
- Cynnal Cynadleddau Achos yn Gymraeg (Safon 25)
- Gwasanaethau Derbynfya (Safonau 50, 52 a 53)
- Asesu'r angen i gynnig cyrsiau yn Gymraeg (Safon 63)
- Trefnu Cyfweiliadau (Safon 108)
- Canllawiau Cyfieithu (Cydymffurfiaeth Gyffredinol â'r Safonau)

Cyhoeddwyd pob SOP ar 'BetsiNet', sef safle mewnwyd y Bwrdd Iechyd. Bydd gwaith yn parhau yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf i greu rhagor o weithdrefnau gweithredu safonol i gynnwys yr holl Safonau.

Gweithdrefnau ar gyfer Cwynion

Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg ymgymryd â Thrywydd Ymholi i weithdrefnau cwyno'r sefydliad ddiwedd 2025. Pwrpas yr ymarfer hwn oedd asesu effeithiolrwydd sefydliadau o ran derbyn, rheoli a dysgu gan gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Fel cyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i sefydliadau gadw at brosesau penodol o dan y safonau atodol at ddibenion cofnodi ymatebion o'r fath ac ymateb iddynt. Nod y Trywydd Ymholi oedd gwerthuso cadernid y trefniadau hyn, canfod arfer da, tynnu sylw at feysydd lle bo angen gwelliant, a chynnig argymhellion er mwyn atgyfnerthu cydymffurfiaeth.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Comisiynydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella gwelededd a hygyrchedd gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion ynghylch y Gymraeg. Mae'r cynnwys diweddaraf wedi'i gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd, ar dudalennau tîm y Gymraeg ac ar dudalennau'r Gwasanaeth Ymholiadau a Datrysiadau Pobl. Mae'r wybodaeth hon yn amlinellu'r llwybrau sydd ar gael yn glir yn ymwneud â chodi pryderon ynghylch darparu gwasanaethau dwyieithog a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

I ategu dysgu sefydliadol a gwella parhaus, mae cwynion ynghylch y Gymraeg bellach wedi'u sefydlu fel eitem sefydlog ar yr agenda yn y Grŵp Sicrwydd Rheoleiddiol. Mae hyn yn sicrhau bod

craffu'n digwydd ar lefel uwch yn rheolaidd ac mae'n hybu arolygu cyson o ran cydymffurfiaeth, themâu sy'n deillio o gwynion, a chyfleoedd i wella gwasanaethau.

Ar y cyfan, mae'r cyfnod adrodd yn adlewyrchu blwyddyn o gynnydd sylweddol o ran atgyfnerthu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac ymgorffori arfer dwyieithog ar draws y sefydliad. Mae gweithgarwch monitro wedi arwain at welliannau mesuradwy, gyda newid amlwg o gydymffurfiaeth gymysg i berfformiad sy'n uchel yn gyson ar draws meysydd safonol.

Gyda'i gilydd, mae'r cyflawniadau hyn yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei gyfrifoldebau statudol ochr yn ochr â gwella ei gapasiti'n raddol i gynnig gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Gymraeg, gan sicrhau bod cleifion yn profi buddion gwell cyfathrebu'n ddwyieithog a gwasanaethau sydd wedi'u halinio'n ddwyieithog ar draws Gogledd Cymru.

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu

Mae Tîm Hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran datblygu gweithlu hyderus a dwyieithog trwy gyflawni rhaglen gynhwysfawr ar gyfer dysgu'r Gymraeg wedi'i theilwra i anghenion y sefydliad.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, gwnaeth mwy na 1,000 o aelodau o staff gymryd rhan mewn hyfforddiant y Gymraeg, sy'n cynrychioli cynnydd o 4 y cant o gymharu â 2024-25. Mae'r duedd ar i fyny hon yn adlewyrchu'r ymrwymiad cryf a chynyddol ymysg staff i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg ac i'w cymhwyso'n ymarferol er mwyn gwella ansawdd, diogelwch a phriodoldeb diwylliannol gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cleifion ledled Gogledd Cymru.

Mae'r Tîm wedi mabwysiadu dull rhagweithiol a strategol er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddysgu'n cydfynd â gofynion deddfwriaethol a blaenoriaethau'r sefydliad. Mae asesiadau rheolaidd o anghenion dysgu ar draws gwasanaethau wedi caniatáu datblygu cyrsiau wedi'u targedu ar gyfer staff y rheng flaen, gan sicrhau bod grwpiau blaenoriaethol yn derbyn cymorth penodol er mwyn atgyfnerthu capasiti'r Bwrdd Iechyd i gynnig gofal dwyieithog o ansawdd uchel.

Mae'r dull hwn wedi cael ei atgyfnerthu trwy weithio mewn partneriaeth yn barhaus â chyrff cenedlaethol. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd adnewyddu ei gontract deuddeg mis gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o dan gynllun *Cymraeg Gwaith* a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau parhad darpariaeth, cydweithio a chadw Swyddog Cefnogi'r Gymraeg yn ei swydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaeth 798 o aelodau o staff fanteisio ar gyrsiau *Cymraeg Gwaith*, gan ehangu galluedd dwyieithog y sefydliad ymhellach.

Un o'r prif ddatblygiadau fu cyflwyno cynllun hyfforddi *Codi Hyder / Building Confidence*, a gyflwynir mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n agos gyda'r Ganolfan i gynnal cynllun peilot o raglen bwrpasol o fewn yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLDD), sydd â'r nod o atgyfnerthu sgiliau yn y Gymraeg ac o ategu uchelgais 'Mwy na Geiriau' i wella darpariaeth gwasanaeth dwyieithog. Disgwylir i'r fenter arloesol hon gynyddu nifer y staff sy'n hyderus o ran siarad Cymraeg ym maes MHLDD, gan sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaeth dwyieithog gwell ac sy'n alinio ar lefel ddiwylliannol.

Ar y cyd, mae'r datblygiadau hyn yn dangos ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i feithrin gweithlu dwyieithog ar gyfer y dyfodol ac i sicrhau bod galluedd yn y Gymraeg yn parhau i fod yn elfen graidd o ofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Cynhaliwyd noson Gwobr Dysgwr y Flwyddyn yn y Bwrdd Iechyd eleni, ac mae'n gyfle pwysig, nid yn unig i ddathlu cyflawniadau ein dysgwyr ac i gydnabod eu hymroddiad i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg, ond hefyd i ddangos arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd yn y maes hwn ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r digwyddiad yn tynnu sylw at y ffordd y mae ein hymrwymiad i alluedd dwyieithog yn gosod esiampyl gadarn yn genedlaethol ac mae'n dangos buddsoddiad parhaus y sefydliad o ran meithrin gweithlu sy'n hyderus, sy'n fedrus ac sydd wedi'i alinio'n ddiwylliannol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg ar y digwyddiad eleni, yn taflu goleuni ar y dathliadau, y cyflawniadau a gydnabuwyd ar y noson ac effaith ehangach buddsoddiad parhaus y Bwrdd Iechyd o ran datblygu'r Gymraeg.

Dadansoddi Data Darpariaeth Hyfforddiant y Gymraeg



Gwnaeth BIPBC adnewyddu contract 12 mis gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd 798 o aelodau o staff wedi manteisio ar gyrsiau 'Cymraeg Gwaith', gan gynnwys hunanastudio, cyfleoedd dysgu preswyl a magu hyder.



Gwnaeth 238 o aelodau o staff gymryd rhan yn y 'Cwrs Croeso/Welcome Course' newydd ei lansio, a gafodd ei ddatblygu mewn ymateb i'r amcanion a amlinellir yng nghynllun pum mlynedd Mwy na Geiriau / More than Just Words Llywodraeth Cymru.



Gwnaeth y tiwtor mewnol roi cymorth i dros 230 o aelodau o staff gyda dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn, gan nodi cynnydd o 17.5% ers 2024-25. Yn galonogol, gwnaeth mwy na 70% o gyfranogwyr ddewis parhau â'u hastudiaethau Cymraeg ar ôl cwblhau cwrs.



Gwnaeth 42 o aelodau o staff ddilyn cyrsiau dwys pum niwrnod yn Nant Gwrtheyrn, a gwnaeth pedwar aelod o staff ddilyn cwrs a oedd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer staff o dramor a gwnaeth 12 aelod o staff ddilyn cyrsia

EISTEDDFOD



Gwnaeth enillydd gwobr PBC Dysgwr y Flwyddyn '24, Leanne Parry, gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth fawreddog Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gwnaeth y tîm drefnu gwibdaith i'r Eisteddfod ar gyfer dysgwyr Cymraeg er mwyn cefnogi Leanne.



Mae grŵp Facebook 'Y Gymraeg yn Betsi' yn parhau i arddangos enghreifftiau o arfer da a straeon am lwyddiant, ac mae 593 o ddilynwyr ar hyn o bryd, sy'n cynnydd o 22% ers Ebrill 2025.

Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn y Bwrdd Iechyd 2026

Mae Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflawni rôl sylweddol o ran ategu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddatblygu gweithlu dwyieithog a gwella gwasanaethau ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg a chymunedau ar draws Gogledd Cymru.

Eleni, derbyniwyd dros 50 o enwebiadau ar gyfer y gystadleuaeth gan staff ar draws y sefydliad, gan ddangos ymgysylltu cryf â dysgu Cymraeg a chan adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol sgiliau dwyieithog o fewn darpariaeth gofal iechyd. Yn dilyn proses beirniadu cadarn, cyrhaeddodd chwech y rhestr fer ar draws dau gategori: Lefel Mynediad/Sylfaen a Lefel Canolradd/Uwch.



Gwnaeth y seremoni wobrwyo, a gynhaliwyd yng ngwesty Kinmel Hotel, Abergele, ddathlu cyflawniadau dysgwyr yn llwyddiannus ac ystyriwyd yn eang ei fod yn rhagori ar ddigwyddiadau dros y blynyddoedd blaenorol.

Cafodd gwobrau eu cyflwyno i Bethany Frempong Jones (Lefel Mynediad/Sylfaen) a Dr Caroline Jones (Lefel Canolradd/Uwch), a gwnaeth Mark Butler dderbyn Gwobr Dewis y Tiwtor er mwyn cydnabod ei ymrwymiad eithriadol i ddysgu'r Gymraeg. Cafodd y digwyddiad ei gynnal o dan nawdd gan Cymen a Nant Gwrtheyrn.

Mae'r gystadleuaeth yn parhau i gynnig buddion clir i'r sefydliad trwy gydnabod cyflawniadau dysgwyr, annog cymryd rhan mewn hyfforddiant y Gymraeg, hyrwyddo defnydd ymarferol o'r Gymraeg yn y gweithle, ac atgyfnerthu diwylliant dwyieithog y Bwrdd Iechyd. Mae ansawdd yr enwebiadau a'r rhai a gyrhaeddodd y rhestr fer yn tynnu sylw at y datblygiadau arloesol o ran darpariaeth hyfforddiant y Gymraeg.

Ar y cyfan, mae Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn parhau i fod yn ddigwyddiad pwysig o ran hybu'r Gymraeg a normaleiddio defnydd ohoni yn y Bwrdd Iechyd ac mae'n ategu ymrwymiad strategol y Bwrdd Iechyd i gynnig gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog o ansawdd uchel.



Gwasanaethau Cyfieithu

Mae'r Tîm Cyfieithu'n cyflawni rôl strategol bwysig o ran galluogi'r Bwrdd Iechyd i fodloni ei rwymedigaethau statudol o dan Safonau'r Gymraeg ac i atgyfnerthu ymrwymiad ehangach y sefydliad i gynnig gofaliad teg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Trwy ddarparu gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd o ansawdd uchel ar draws yr holl uwch adrannau, mae'r tîm yn sicrhau bod cyfathrebu dwyieithog yn cael ei ymgorffori fel gofyniad gweithredol craidd yn hytrach na gweithgaredd atodol. Mae galw cyson am gyfieithu'n adlewyrchu gwelededd cynyddol y Gymraeg ar draws swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd a ffocws y sefydliad ar wella profiad cleifion trwy wybodaeth sy'n hygyrch, ac sydd wedi'i halinio'n ddiwylliannol.

Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn y tîm a'i ffordd o flaenoriaethu deunyddiau sy'n sensitif o ran amser yn ategu gwydnwch gweithredol, yn lliniaru risg o ran cydymffurfio, ac yn sicrhau bod staff a chleifion yn derbyn gwybodaeth fanwl-gywir yn eu dewis iaith, gan felly atgyfnerthu nod strategol y Bwrdd Iechyd o gynnig gwasanaethau sy'n ddiogel, sy'n gynhwysol ac sy'n cydymffurfio ar lefel gyfreithiol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i greu incwm allanol trwy ddarparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg arbenigol. Yn 2024-2025, gwnaeth Tîm y Gymraeg ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddarparu cymorth cyfieithu ysgrifenedig, gan adlewyrchu hyder yng ngalluoedd a safonau proffesiynol y tîm.

Arweiniodd llwyddiant y trefniant hwn at adnewyddu cytundeb yn 2025-2026, ac mae'r ddau sefydliad bellach wedi cadarnhau eu bod am fwrw ymlaen â'r trefniant hwn am y drydedd flwyddyn yn olynol yn 2026-2027. Mae'r bartneriaeth barhaus hon yn dangos ansawdd uchel, dibynadwyedd ac enw da gwaith y tîm, gan gyfrannu incwm rheolaidd gwerthfawr at y Bwrdd Iechyd.

Mae'r tîm wedi parhau i foderneiddio ei ddulliau gweithredol trwy wella defnydd o dechnoleg Cof Cyfieithu, sydd wedi cael ei hymgorffori i lifoedd gwaith dyddiol ers nifer o flynyddoedd. Fel rhan o raglen effeithlonrwydd ehangach, mae'r tîm wedi ystyried cyfleoedd i symleiddio prosesau ymhellach, lleihau dyblygu, a chyflymu amseroedd cwblhau ar gyfer ceisiadau cyfieithu o gyfaint mawr. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys buddsoddi mewn system Cof Cyfieithu uwchraddedig, sef 'Wordfast', sy'n cynnwys swyddogaethau ychwanegol, gwell rheolyddion o ran cysondeb, a mwy o gapasiti i gynorthwyo gyda thasgau cyfieithu cymhleth. Mae mabwysiadu'r feddalwedd ddiwedddaredig hon yn cynrychioli cam strategol o ran gwella cynhyrchiant, cynnal galw cynyddol, a sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal gwasanaeth dwyieithog gwydn ac o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau statudol a sefydliadol.

Mae ceisiadau cyfieithu brys yn ystod y cyfnod adrodd wedi cynnwys datganiadau i'r wasg, gohebiaeth â chleifion, adroddiadau blynyddol, a gwybodaeth amserol hollbwysig am iechyd y cyhoedd ar gyfer sianeli'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Tîm Cyfieithu'n blaenoriaethu'r holl ohebiaeth ar gyfer y cyhoedd a chleifion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth hanfodol ar gael yn ddwyieithog o fewn 1-2 diwrnod gwaith, a lle bo capasiti'n caniatáu, bod y wybodaeth honno ar gael o fewn yr un diwrnod gwaith ar gyfer eitemau lle bo brys mawr. Er mwyn diogelu cyfathrebu'n ddwyieithog ymhellach, mae gwasanaeth y tu allan i oriau yn parhau i gael mewn

amgylchiadau eithriadol. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod modd rhannu gwybodaeth hollbwysig ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i drin y Gymraeg ar y sail ei bod yn gyfatal a chan gynnal cydymffurfiaeth â gofynion statudol.

Ar y cyfan, cyfanswm nifer y geiriau a gyfieithwyd yn ystod y flwyddyn adrodd oedd 4,622,786. Y gwasanaethau â'r galw uchaf am gyfieithu oedd:

Gwasanaeth	Nifer y geiriau a gyfieithwyd
Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	1,024,588
Y Swyddfa Gorfforaethol	234,005
Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd	127,844
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	127,314
Cyfathrebu	122,239

Mae'r Tîm Cyfieithu yn parhau i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a ddarperir naill ai wyneb yn wyneb neu ar lwyfannau ar-lein fel 'Zoom' a 'Microsoft Teams'. Derbyniwyd cyfanswm o 43 o geisiadau gyda'r mwyafrif yn gofyn am gyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau i randdeiliaid, cyfarfodydd a chynadleddau, a chyfweliadau ag ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu cyfweliadau yn y Gymraeg.

Gweithgareddau a Digwyddiadau Hyrwyddo

Mae gweithgareddau a digwyddiadau hyrwyddo megis diwrnodau dathlu cenedlaethol a digwyddiadau, yn ogystal ag ymgyrchoedd ymgysylltu ehangach yn cyflawni rôl strategol bwysig o ran helpu'r Bwrdd Iechyd i hyrwyddo, normaleiddio a dathlu'r Gymraeg ymysg staff, cleifion a'r cyhoedd.

Trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol proffil mawr a nodi achlysuron cenedlaethol, mae'r sefydliad yn dangos arweinyddiaeth weladwy o ran hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig, gan atgyfnerthu ei ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion diwylliannol ac ieithyddol y cymunedau y mae'n ei wasanaethu.

Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam

Aeth y Bwrdd Iechyd i'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Wrecsam, ac eleni, cafodd y stondin ei gynnal fel ymdrech ar y cyd, a bu sefydliadau gofal iechyd gwahanol yn bresennol ar ddiwrnodau gwahanol. Dros bedwar diwrnod prysur a llwyddiannus, gwnaeth cydweithwyr o ystod o wasanaethau yn y Bwrdd Iechyd - gan gynnwys y Tîm Atal Strôc, Therapi Iaith a Lleferydd, Ffisiotherapi a rhaglen Helpa Fi i Stopio - groesawu ymwelwyr, rhannu gwybodaeth a thynnu sylw at hyd a lled y gwasanaethau sydd ar gael ar draws y Bwrdd Iechyd, gyda phwyslais arbennig ar bwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg a'u heffaith bositif ar gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd.



Gwnaeth cyfraniad pawb trwy gydol yr wythnos helpu i ddangos amrywiaeth a chyrhaeddiad gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd a gwnaethant greu cyfleoedd gwerthfawr i gael sgysiau ystyrlon ag aelodau'r cyhoedd ynghylch manteisio ar ofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd Tîm y Gymraeg ei wahodd hefyd i stondin Gyrrfa Cymru er mwyn rhoi cyngor, arweiniad a gwybodaeth am gyfleoedd gyrrfaol yn y Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, gwnaeth y Tîm gymryd rhan mewn trafodaeth panel gyda

Phrifysgol Wrecsam a Jeremy Miles, Aelod o'r Senedd, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ystyried sut gall y Bwrdd Iechyd ysbrydoli, datblygu a chynorthwyo gweithlu gofal iechyd y dyfodol yng Nghymru.

Diwrnodau Dathlu Cenedlaethol

I nodi Diwrnod Santes Dwynwen, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyflwyno ymgyrch hynod weladwy a diddorol yn dathlu balchder

Dydd Santes Dwynwen Hapus



staff mewn gweithio i'r sefydliad. Fel rhan o'r dathliad, cafodd staff ar draws yr holl

safleoedd eu gwahodd i rannu pam maent wrth eu bodd yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd, gan dynnu sylw at y gwerthoedd, y gwaith tîm a'r ymdeimlad o bwrpas sy'n sail i'w rolau.



I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyflwyno cyfres o weithgareddau ymgysylltu proffil mawr ar draws ei dri safle aciwt. Cafodd Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant eu gwahodd i wardiau'r plant yn Ysbyty Maelor, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd, lle gwnaeth plant - a staff - fwynhau sesiynau rhyngweithiol yn cynnwys rhigymau adnabyddus o Gymru, gan greu profiad cynnes a diwylliannol gyfoethog i deuluoedd. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyhoeddi hefyd enwau'r staff a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer gwobrau Dysgwr y Flwyddyn 2026, gwnaeth lansio fideos newydd 'Mwy na Geiriau', a gwnaeth gyflwyno ffurflen ddigidol er mwyn symleiddio archebu adnoddau ar-lein. Cafodd stondinau gwybodaeth eu cynnal ar bob safle aciwt, gan roi cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â staff, hyrwyddo cyfleoedd sydd i

ddod i ddysgu'r Gymraeg, a dosbarthu adnoddau. Gyda'i gilydd, gwnaeth y gweithgareddau hyn wella gwelededd y Gymraeg a'i diwylliant ar draws y sefydliad.



I nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, gwnaeth y Bwrdd Iechyd ddathlu'r cyfraniad hollbwysig y mae menywod yn ei wneud ar draws y sefydliad a'r GIG yn ehangach. Mae menywod yn cynrychioli cyfran sylweddol o weithlu'r Bwrdd Iechyd ac maent wedi cyflawni rhan annatod o ran llunio darpariaeth gofal iechyd yn hanesyddol. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd dynnu sylw at gyflawniadau cydweithwyr a gwirfoddolwyr benywaidd ar draws yr holl wasanaethau a'u hanrhydeddu, gan gydnabod y rhai sy'n cynnig gofal dwyieithog i gleifion yng Ngogledd Cymru, yn benodol. Gwnaeth y dathliad hwn atgyfnerthu ymrwymiad y sefydliad i gydraddoldeb, gwelededd a chynhwysiant diwylliannol, gan ddangos ymroddiad, proffesiynoldeb ac effaith menywod sy'n rhoi cymorth o ran cenhadaeth y Bwrdd Iechyd bob dydd.

Roedd y gweithgareddau hyn yn creu cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol, codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr yn y gweithle, ac atgyfnerthu hyder y cyhoedd o ran ymroddiad y Bwrdd Iechyd i ofal dwyieithog.

Un uchafbwynt ychwanegol o fewn gweithgareddau a digwyddiadau hyrwyddo eleni oedd cyflwyno'r gloch oncoleg gyntaf yn Gymraeg yng Nghymru. Gall cleifion ar Ward y Plant yn Ysbyty Maelor Wrecsam ddathlu cwblhau eu triniaeth canser bellach gyda chwa ystyrlon o falchder Cymreig, yn dilyn gosod cloch ddwyieithog i nodi diwedd triniaeth sydd wedi'i harysgrifio â neges yn Gymraeg. Mae'r datblygiad hwn yn rhoi'r cyfle i blant a theuluoedd nodi carreg filltir arwyddocaol yn eu hiaith gyntaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i welededd y Gymraeg mewn amgylchiadau clinigol. Cafodd cyrhaeddiad y gloch groeso cynnes ac mae'n cynrychioli cam cadarnhaol o ran gwella profiad cleifion trwy integreiddio'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig mewn lleoliadau gofal.



Wythnos y Gymraeg

Cafodd ein hwythfed ddigwyddiad blynyddol Wythnos y Gymraeg ei gynnal rhwng 20-24 Hydref, gan godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofal iechyd dwyieithog ac yn dathlu gwaith staff sy'n rhoi cymorth gyda gwasanaethau Cymraeg ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd yr wythnos hefyd yn gyfle i Dîm y Gymraeg ymgysylltu'n uniongyrchol â staff.

.....

Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Rhannu stori claf trwy lansio fideo, yn tynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg ar ein wardiau Plant.
- Gwnaeth Dewin ymweld â phob un o'r tair o wardiau'r Plant mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant a ganodd ac a ddarllenodd lyfrau gyda'r plant ar y ward.
- Roedd cwrs 'Gwefra dy Gymraeg' ar gael i staff, gan roi cyfle iddynt wella eu Cymraeg, magu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg a hefyd i ddysgu mwy am ein cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg.
- Stondinau gwybodaeth yn y tri ysbyty aciwt ac ysbytai cymunedol yn Llandudno, Dinbych a Glannau Dyfrdwy i ddathlu diwrnod 'Shw'mae, Su'mae'. Roedd y stondinau'n gyfle i ni siarad â staff ac i roi cyngor ac arweiniad ar ystod o bynciau'n ymwneud â gwasanaethau dwyieithog. Yn ogystal, gwnaethom annog staff i ddefnyddio eu Cymraeg o ddydd i ddydd yn y gwaith.
- Cynhaliwyd cystadleuaeth 'Addewid Cymraeg' wrth y stondinau er mwyn rhoi'r cyfle i staff ymrwymo i wneud un peth o ran y Gymraeg, e.e. Rwy'n addo dechrau pob sgwrs yn Gymraeg gyda fy nghleifion.
- Ar ddiwedd yr wythnos, gwnaethom ddewis enw ar hap, gwnaeth Sarah o Ysbyty Glannau Dyfrdwy ennill hamper ar gyfer addewid y Gymraeg.
- Lansio Gwobrau Dysgwr y Flwyddyn 2026.
- Cyfweiliadau Radio ar Radio Ysbyty Gwynedd a Radio Ysbyty Glan Clwyd.




Bu'r wythnos yn llwyddiant ysgubol, yn dathlu'r Gymraeg, yn hybu dwyieithrwydd ac yn annog staff i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Y Gymraeg fel Sgil Proffesiynol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei bartneriaethau strategol gyda phrifysgolion, ysgolion a sefydliadau sector i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil proffesiynol gwerthfawr ac fel elfen hanfodol o weithlu dwyieithog yn y dyfodol. Trwy'r dull cydweithredol hwn, mae'r sefydliad yn helpu i ymgorffori'r ddealltwriaeth bod galluoedd yn y Gymraeg yn rhan annatod o ofal o ansawdd uchel ac arfer modern yn y sector cyhoeddus.

Mae'r Tîm wedi parhau i weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru ar ystod o weithgareddau ymgysylltu gyda dysgwyr ar draws Ysgol Morgan Llwyd, Ysgol y Creuddyn, Ysgol Rhosnesni, Coleg Cambria ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a llawer mwy. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau Gymraeg yn y Gweithle, digwyddiadau ar ffurf carwsél, lle cafodd grwpiau bach o ddisgyblion y cyfle i ofyn cwestiynau am bwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle, yn ogystal â ffug gyfweiliadau i ddisgyblion Blwyddyn 10 er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer eu darpar yrfaeodd. Gwnaeth y Tîm hefyd rannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer da mewn ffeiriau gyrfaeodd a digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â gyrfaeodd.

Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i phwysigrwydd mewn lleoliadau gofal iechyd ac i godi ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth sylweddol y gall gwasanaethau Cymraeg ei wneud i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Trwy ymgysylltu â dysgwyr a phobl ifanc, gwnaeth y Tîm dynnu sylw at yr ystod eang o gyfleoedd gyrfaol sydd ar gael ym maes gofal iechyd a phwysigrwydd sgiliau dwyieithog wrth gynnig gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



Roedd yn galonogol derbyn adborth mor bositif gan staff yr ysgol, a nododd Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn y canlynol:

"Roedd yn wych cael Tîm y Gymraeg o'r Bwrdd Iechyd yn yr ysgol eto eleni yn rhoi cyflwyniad ar bwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn y sector meddygol. Mae cael staff yn dod atom i gyflwyno i ddisgyblion yn hynod bwerus o ran rhoi cymorth i hybu pwysigrwydd gallu sgwrsio â chleifion yn yr iaith maent fwyaf cyfforddus ynddi. Mae hyn yn ei dro yn ategu gwaith ysgolion a chanlyniadau i fyfyrwyr trwy helpu i roi pwysigrwydd dysgu a'r pynciau maent yn eu dysgu yn ei gyd-destun."

Hefyd, yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaeth y Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei waith mewn partneriaeth â phrifysgolion rhanbarthol i roi cymorth o ran datblygu gweithlu dwyieithog yn y dyfodol. Gwnaeth Tîm y Gymraeg gydweithio â Phrifysgol Wrecsam fel rhan o'i fodiwl 20 credyd newydd, sef 'Cymraeg yn y Gweithle 1' ar gyfer myfyrwyr Proffesiynau sy'n Gysylltiedig ag Iechyd, yn cynnig

sesiynau Cymraeg ac ymwybyddiaeth o'r iaith sydd â'r nod o roi'r hyder a'r sgiliau i ddarpar glinigwyr ddefnyddio Cymraeg yn eu harfer proffesiynol.



Yn yr un modd, gwnaeth y Bwrdd Iechyd barhau i ymgysylltu â Phrifysgol Bangor ac Ysgol Feddygol Gogledd Cymru trwy'r Rhaglen Feddygaeth newydd. Gwnaeth y tîm gyflwyno sesiynau'n amlinellu dull strategol y sefydliad ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant a'i hymgorffori ar draws gwasanaethau clinigol, gan bwysleisio pwysigrwydd dewis iaith o ran gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaeth un o Feddygon Ymgynghorol Gofal yr Henoed y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty Gwynedd roi safbwynt ymarferydd ar werth defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd mewn rhyngweithiadau clinigol a'r effaith bositif y mae hyn yn ei chael ar brofiad cleifion.

Gwnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gyda myfyrwyr Blwyddyn 2 yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru er mwyn dangos pwysigrwydd siarad yn Gymraeg â chleifion, a'r cymorth a gynigir gan y Bwrdd Iechyd unwaith y byddant ar leoliad.

Mae'r prosiectau cydweithio hyn yn elfen bwysig o strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd i feithrin gweithlu clinigol hyderus a dwyieithog ac i sicrhau bod cenedlaethau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y dyfodol yn gallu diwallu anghenion ieithyddol y boblogaeth.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r data a gynhwysir isod yn unol â Safon 120 o Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cynllunio'r Gweithlu

- Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad y mae eu sgiliau Cymraeg wedi eu hasesu ar draws y sefydliad.***

Nifer y Gweithwyr	2023/24		2024/25		2025/26	
Lefel Hyfedredd Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	9645	46.25%	10217	48.33%	10271	49.02%
1 - Entry / Mynediad	2781	13.34%	2739	12.96%	2828	12.93%
2 - Foundation / Sylfaen	1371	6.57%	1394	6.59%	1426	6.52%
3 - Intermediate / Canolradd	1438	6.9%	1472	6.96%	1555	7.11%
4 - Higher / Uwch	1588	7.62%	1600	7.57%	1613	7.38%
5 - Proficiency / Hyfedredd	2743	13.15%	2778	13.14%	2926	13.38%
Cyfanswm	19,566	93.8%	20,200	95.54%	20,619	96.34%
Cyfanswm staff	20,852		21,142		21,871	

Data 2025 / 2026:

Roedd 96.34 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR

Data 2024 / 2025:

Roedd 95.54 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR

Hyfforddiant i Wella Sgiliau Cymraeg

- Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a gafodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg hyd at lefel cymhwyster penodol.***

Data 2025 / 2026:

Nifer o weithlu'r sefydliad sydd wedi cael mynediad at hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at lefel cymhwyster penodol: 1037

Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 4.9 y cant o weithlu presennol y Bwrdd Iechyd.

Data 2024 / 2025:

Nifer o weithlu'r sefydliad sydd wedi cael mynediad at hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at lefel cymhwyster penodol: 995

Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 4.7 y cant o weithlu presennol y Bwrdd Iechyd.

Recriwtio

- Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r gofyniad a ganlyn:***

Data 2025 / 2026:

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 274 (6.9%)
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 3631 (91.1%)
- Sgiliau Cymraeg i'w dysgu - 69 (1.7%)
- Cymraeg ddim yn sgil gofynnol - 10 (0.3%)
- Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd - 3984

Data 2024 / 2025:

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 301 (6.5 y cant)
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 4238 (92.2 y cant)
- Sgiliau Cymraeg i'w dysgu - 49 (1.1 y cant)
- Cymraeg ddim yn sgil gofynnol - 8 (0.17 y cant)
- Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd - 4596

Cwynion

- **Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithredu Safonau'r Gymraeg**

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd bedair cŵyn newydd yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd - tair drwy Gomisiynydd y Gymraeg, ac un wedi'i derbyn trwy'r Tîm Cwynion.

Cafodd un gŵyn ei chyfeirio at statws ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac roedd yn ymwneud ag oedi o ran ateb llinell ffôn Gymraeg. Rhoddwyd tystiolaeth yn datgan bod oedi ar y llinellau Cymraeg a Saesneg am gyfnod o awr tra'r oedd y ganolfan alwadau'n symud o Fangor i Gaernarfon.

Deliwyd â'r ddwy gŵyn arall drwy Gomisiynydd y Gymraeg yn llawn ar ôl y llythyr cychwynnol, ac ni chawsant eu huwchgyfeirio at statws ymchwiliad. Roedd un gŵyn yn ymwneud â methiant i drefnu cyfweiliad swydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr ail yn ymwneud ag arwyddion uniaith Saesneg yn un o Adrannau Cleifion Allanol y Plant.

Roedd y gŵyn a anfonwyd yn uniongyrchol at y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â diffyg gwasanaeth Cymraeg mewn Canolfan Ddeintyddol. Cafodd y ddeintyddfa ei hatgoffa am y chwe dyletswydd y mae'n rhaid i wasanaethau gofal sylfaenol gydymffurfio â nhw a gwnaeth Tîm y Gymraeg gynnig cymorth.

Ymdriniwyd yn llawn â phob cŵyn yn unol ag amserlen cwynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu o dan Reoliadau Gweithio i Wella.

Myfyrdodau a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod cynnydd yn y meysydd canlynol:

- gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn y dewis iaith.
- gwella cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a statudol.
- nodi mentrau sydd wedi'u gweithredu a'u cyflwyno i ymateb i angen iaith fel elfen annatod o ofal.
- gwella datblygu sefydliadol o ran sut mae'r gweithlu'n cael ei gefnogi i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn edrych ar fentrau a chyfleoedd sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf trwy ei ddull tair blynedd ar gyfer cynllunio gwasanaethau. Bydd ffocws ar ymgorffori'r Gymraeg o ran Cynllunio a Darparu Gwasanaethau, gwella'r "Cynnig Rhagweithiol" ar draws lleoliadau clinigol trwy roi cynllun pum mlynedd Safon 110 ar waith, ac ehangu mentrau llwyddiannus ar draws gwasanaethau er mwyn sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn gyson.

Gosod uchelgais ar gyfer 2026-2027

Gan edrych tua'r dyfodol, mae Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd 2026-2029 yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer atgyfnerthu galluoedd yn y Gymraeg ar draws gwasanaethau, a thros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar atgyfnerthu'r sylfeini hyn.

Bydd y prif flaenoriaethau'n cynnwys:

- datblygu cynllun â ffocws clinigol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn unol â Safon 110;
- ehangu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer staff sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed;
- gwella trefniadau llywodraethu ymhellach er mwyn monitro cydymffurfiaeth a chynnydd.

Bydd gwaith hefyd yn parhau i ganfod grwpiau blaenoriaethol o ran cleifion a'r gweithlu lle bo angen cymorth ychwanegol, ochr yn ochr â phwyslais newydd ar wella gwelededd a defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd trwy ymgysylltu â staff, presenoldeb cymdeithasol a chyflwyno Rhaglen Pencampwyr y Gymraeg.

Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu i wreiddio'r Gymraeg yn ddyfnach o fewn swyddogaethau craidd ac yn hybu perchnogaeth ddiwylliannol ehangach ar draws y sefydliad, gan sicrhau cynnydd cyson a gwasanaeth dwyieithog cryfach ar gyfer pobl Gogledd Cymru.